




# Materion Symudol

Defnyddio data torfol i asesu perfformiad  
rhwydweithiau symudol y DU

Cyhoeddwyd 16 Hydref 2026



# Cynnwys

---

## Adran

|                                                                  |    |
|------------------------------------------------------------------|----|
| Trosolwg.....                                                    | 4  |
| Sgoriau perfformiad cyffredinol rhwydweithiau symudol.....       | 12 |
| Sgoriau perfformiad symudol awdurdodau lleol.....                | 15 |
| Perfformiad rhwydweithiau symudol yn ôl metrig a thechnoleg..... | 19 |
| Perfformiad symudol ar lefel y DU .....                          | 22 |
| Perfformiad symudol yn ôl rhwydwaith .....                       | 25 |
| Perfformiad symudol yn ôl gwledydd.....                          | 32 |
| Perfformiad symudol yn ôl gwledigrwydd.....                      | 37 |

# Trosolwg

Mae rhwydweithiau symudol yn chwarae rhan hollbwysig mewn bywyd bob dydd, gan alluogi pobl i gael gafael ar gynnwys gwaith a hamdden wrth symud o gwmpas a chadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu.

Mae ein hadroddiadau Materion Symudol yn rhoi golwg annibynnol ar berfformiad rhwydweithiau symudol y DU, ar sail y cysylltedd a'r ansawdd gwasanaeth y mae defnyddwyr yn eu profi mewn bywyd bob dydd. Mae'n cynnig asesiad cymharol ar draws rhwydweithiau, technolegau ac ardaloedd daearyddol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen waith ehangach Ofcom i ddeall a gwella ansawdd y profiad i ddefnyddwyr ffonau symudol y DU. Mae allbynnau eraill yn cynnwys adnoddau gwirio symudol Ofcom, [Mapio Eich Ffôn Symudol](#), ein [adroddiadau Cysylltu'r Gwledydd](#) a phapur trafod Mehefin 2026 [Cysylltedd y gallwch ddibynnu arno](#).<sup>1</sup>

## Rydym yn mesur perfformiad symudol bob dydd

---

Mae Materion Symudol yn defnyddio data torfol a ddarperir gan Opensignal, sy'n cael ei gasglu o brofion a gynhelir wrth i filoedd o bobl ledled y DU ddefnyddio eu ffonau symudol yn ystod gweithgareddau dyddiol. Gan fod y data'n cael ei gasglu lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn teithio, mae'n rhoi darlun o'r byd go iawn o ba mor dda mae rhwydweithiau symudol yn cefnogi defnydd o ddydd i ddydd yn y manau lle maen nhw'n defnyddio eu ffonau.

Mae'r dadansoddiad yn defnyddio dros 225 miliwn o bwyntiau data o brofion a gynhaliwyd rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026. Mae'r sampl yn adlewyrchu cyfrannau marchnad cwmnïau a phoblogaeth y DU yn fras, ac mae'n ddigon mawr i sicrhau cadernid y canfyddiadau. Edrychwch ar y [ddogfen Methodoleg](#) ar wahân i gael rhagor o fanylion. Dim ond pan fydd cysylltedd symudol y bydd data'n cael ei gasglu, sy'n golygu bod y dadansoddiad yn darparu asesiad o berfformiad rhwydwaith mewn ardaloedd lle mae darpariaeth ar gael. Mae gwybodaeth am ddarpariaeth symudol y DU ar gael yn adroddiadau [Cysylltu'r Gwledydd](#) Ofcom a'n gwiriwr [Mapio Eich Ffôn Symudol](#).

## Sut rydym yn diffinio perfformiad symudol da

---

Mae adroddiad eleni yn cynnwys dadansoddiad newydd sy'n defnyddio *sgôr perfformiad symudol da* Ofcom i asesu pa mor dda y mae rhwydweithiau symudol y DU yn perfformio, sydd, fel yr esbonnir yn ein papur trafod [Cysylltedd y gallwch ddibynnu arno](#), yr un fath ag a ddefnyddir yn ein hadnodd gwirio [Mapio Eich Ffôn Symudol](#). Yn yr adroddiad hwn, rydym yn edrych ar sgoriau perfformiad da ar lefel genedlaethol ac ar lefel rhanbarthau awdurdodau lleol, gan roi darlun ehangach o berfformiad rhwydwaith na'r wybodaeth am ranbarthau-cod post sydd ar gael drwy [Mapio Eich Ffôn Symudol](#).

Mae diffiniad Ofcom o'r hyn sy'n gyfystyr â pherfformiad da o ran cysylltiad rhwydwaith symudol wedi'i nodi yn y papur trafod [Cysylltedd y gallwch ddibynnu arno](#). Mae'n defnyddio tri throthwy: cyflymder lawrlwytho o 5Mbit yr eiliad o leiaf; cyflymder uwchlwytho o 1.5 Mbit yr eiliad o leiaf; ac

---

<sup>1</sup> Daeth yr ymatebion i'r papur trafod hwn i ben ar 29 Gorffennaf a byddant yn cael eu defnyddio yn ein gwaith i wella cysylltedd symudol yn y DU. Bydd diweddariad yn cael ei rannu ddechrau 2027; gweler tudalen lanio [Cysylltedd symudol y gallwch ddibynnu arno](#).

oedi unffordd o ddim mwy na 50 milieiliad.<sup>2</sup> Rydym wedi cynnig meincnod bod yn rhaid i o leiaf 90% o'r mesuriadau fodloni'r safon hon er mwyn i ardal gael ei chategoreiddio fel un sy'n perfformio'n dda. Edrychwch ar yr adran Perfformiad cyffredinol y rhwydwaith symudol isod i gael rhagor o wybodaeth.

## Cyd-fynd â'r safon perfformiad symudol da

Fel mewn adroddiadau blaenorol ar Faterion Symudol, rydym yn nodi'r metrigau perfformiad unigol sy'n pennu profiad y defnyddiwr symudol, ac yn eu defnyddio i helpu i egluro sut gallai'r gwahaniaethau ym mhrofiad y defnyddiwr gael eu sbarduno gan argaeledd technolegau symudol gwahanol.

Fodd bynnag, mewn newid o adroddiadau blaenorol, lle bo'n bosibl rydyn ni wedi diweddarau ein dadansoddiad o'r metrigau hyn i gyd-fynd â'r fethodoleg safonau perfformiad da (fel y nodir yn ein papur trafod [Cysylltedd y gallwch ddibynnu arno](#)). Fel rhan o hyn:

- Mae profion sy'n cael eu casglu gan rai cwsmeriaid gweithredwyr rhith rhwydwaith symudol (MVNO) yn cael eu cynnwys yn ein dadansoddiad, ac maent yn cael eu priodoli i'r rhwydwaith lletya perthnasol lle rydym yn cymharu perfformiad ar draws rhwydweithiau;
- Rydym hefyd wedi cynnwys canlyniadau profion sy'n cael eu cynnal ar ddyfeisiau Apple iOS yn ein dadansoddiad yn ogystal â'r rhai sy'n rhedeg ar ffonau Android (er nad oedd iOS yn cyfrif am ddim ond 1.5% o brofion);<sup>3</sup> ac
- Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar 12 mis o ddata<sup>4</sup> (yn wahanol i adroddiadau blaenorol, a oedd yn defnyddio data dros chwe mis).

Mae'r newidiadau hyn yn golygu nad oes modd cymharu'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol â'r rhai a gyhoeddwyd mewn adroddiadau blaenorol. Er mwyn gallu dadansoddi tueddiadau o un flwyddyn i'r llall, rydym wedi ailgyfrifo'r ffigurau ar gyfer Awst 2024 i Orffennaf 2025 (rydym yn cyfeirio atynt fel 2024/25) lle roedd y prawf sylfaenol a sefydlwyd yn caniatáu i ni wneud hynny.<sup>5</sup> Fodd bynnag, gall ffactorau ar wahân i berfformiad rhwydwaith arwain at newidiadau yn ein data torfol dros amser, a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cymariaethau o un flwyddyn i'r llall.

---

<sup>2</sup> Daw'r mesuriadau cyflymder a ddefnyddir i gyfrifo'r sgôr perfformiad da o ganlyniadau profion trosglwyddo ffeiliau bach tebyg i'r rhai a ddefnyddir hefyd i gael yr amser i lwytho metrigau i lawr a'r amser i lwytho metrigau i fyny sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Cyfrifir oedi fel hanner yr Amser Hap-Grwn (RTT/2), sy'n amcangyfrif yr oedi unffordd i becyn data deithio o ddyfais symudol i weinydd. Mae'r cyfrifiad yn defnyddio'r mesur isaf o RTT ar draws 100 pecyn UDP.

<sup>3</sup> Mae ein dadansoddiad o gyfraddau llwyddiant ffrydio fideo yn parhau i eithrio mesuriadau iOS.

<sup>4</sup> Mae'r data diweddaraf yn yr adroddiad hwn (wedi'i labelu 2025/26) yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026, a phan fyddwn yn cymharu o un flwyddyn i'r llall, rydym yn ei gymharu â chanlyniadau profion a gasglwyd rhwng mis Awst 2024 a mis Gorffennaf 2025, sydd wedi'u labelu yn 2024/25.

<sup>5</sup> Nid ydym wedi cynnwys ffigurau 2024/25 ar gyfer Amser i Lwytho Ffeil 1 MB i Fyny, gan fod newidiadau i brawf Opensignal yn golygu nad yw'n bosibl gwneud cymariaethau o un flwyddyn i'r llall. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein dogfen Methodoleg ar wahân.

## Datblygiadau i'w hystyried wrth ddarllen ein canlyniadau

---

Mae tirwedd symudol y DU yn parhau i esblygu, gydag uwchraddiadau a datblygiadau sylweddol i'r rhwydwaith yn mynd rhagddynt. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at newidiadau allweddol yn y sector symudol ers ein hadroddiad 2025, a'r hyn y gallent ei olygu i ddefnyddwyr.

**Ffigur 1: Datblygiadau allweddol yn sector symudol y DU**

| Pwnc                                                           | Manylion                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Goblygiadau i ddefnyddwyr ffonau symudol                                                                                                                                                                                                                          |
|----------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Diffodd 3G a rhoi'r gorau i ddefnyddio hen rwydweithiau</b> | Dechreuodd gweithredwyr rhwydweithiau symudol (MNO) roi'r gorau i wasanaethau 3G yn 2023 a chwblhawyd y broses ddechrau 2026. Mae Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol hefyd wedi cyhoeddi y diffoddir gwasanaethau 2G yn y dyfodol, gyda rhai'n bwriadu dechrau diffodd eu rhwydweithiau 2G yn 2029. <sup>6</sup>                                                                                                                       | Mae rhoi'r gorau i hen rwydweithiau yn caniatáu i fandiau sbectrwm gael eu hailddefnyddio i gefnogi gwasanaethau 4G a 5G mwy datblygedig, gan helpu i wella capasiti, darpariaeth a pherfformiad rhwydweithiau.                                                   |
| <b>Cyflwyno 5G annibynnol (5G SA)</b>                          | Mae gweithredwyr rhwydweithiau symudol wedi parhau i ehangu eu darpariaeth 5G annibynnol (5G SA), math mwy newydd o dechnoleg 5G sy'n cael ei defnyddio ochr yn ochr â gwasanaethau 5G nad ydynt yn annibynnol (5G NSA) presennol. O 2026 ymlaen, mae'r ddarpariaeth a ragwelir y tu allan i gartrefi ac adeiladau busnes yn y DU yn amrywio rhwng 49% ac 85% ar draws y tri rhwydwaith symudol sydd wedi cyflwyno 5G SA. <sup>7</sup> | Rydym yn cyflwyno data ar wahân ar gyfer cysylltiadau 5G SA a 5G NSA yn yr adroddiad hwn, gyda 5G NSA ar gael yn ehangach na 5G SA ar hyn o bryd. Wrth i rwydweithiau 2G a 3G ddod i ben, disgwylir i weithredwyr barhau i ehangu darpariaeth 5G SA, 5G NSA a 4G. |
| <b>Uno Vodafone-Three</b>                                      | Cwblhaodd Vodafone UK a Three UK yr uno ym mis Mai 2025, gan greu VodafoneThree. Cyflwynir eu rhwydweithiau ar wahân yn y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn gan nad ydynt wedi'u cyfuno'n llawn eto. <sup>8</sup>                                                                                                                                                                                                                       | Bydd dyfeisiau a ddefnyddir gan gwsmeriaid symudol Vodafone a Three yn gallu cael mynediad at y ddau rwydwaith dros amser wrth iddynt uno.                                                                                                                        |
| <b>Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir (SRN)</b>                    | Mae gwaith uwchraddio seilwaith symudol gwledig wedi parhau o dan raglen y Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Mae gweithredwyr rhwydweithiau symudol wedi cyflawni eu rhwymedigaeth yn 2024 i roi darpariaeth o ansawdd da ar draws 88% o ehangdir y DU ac mae ganddynt ymrwymadau pellach i'w cyflawni erbyn 2027. <sup>9</sup>                                                                                                             | Disgwylir i fuddsoddiad SRN parhaus wella'r ddarpariaeth symudol ymhellach a phrofiad y defnyddiwr mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig mewn lleoliadau lle nad oes gwasanaeth symudol dibynadwy wedi bod ar gael yn y gorffennol.                                  |

Ffynhonnell: Ofcom.

<sup>6</sup> Diffodd rhwydweithiau symudol 2G a 3G y DU: beth mae angen i chi ei wybod.

<sup>7</sup> Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd: Gwanwyn 2026. Mae'r ffigurau darpariaeth rydym wedi'u darparu yma yn cyfeirio at ein lefel "Hyder Uchel" sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd o ddarpariaeth ar lawr gwlad i ddefnyddwyr. Edrychwch ar dudalen 12 yr [atodiad Methodoleg CN2025 i weld diffiniad o'r lefel hon](#).

<sup>8</sup> Adroddiad Cynnydd Blynnyddol VodafoneThree, Mehefin 2026.

<sup>9</sup> Ofcom: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2025, Diweddariad ar y Rhwydwaith Gwledig a Rennir Tudalen 38.

## Defnyddio ein data rhyngweithiol

---

Mae'r allbynnau canlynol yn cyd-fynd â'r adroddiad hwn:

- **Ar gyfer diwydiant, rhanddeiliaid a llunwyr polisïau:** [adroddiad rhyngweithiol](#) gyda siartiau a mapiau, ynghyd â methodolegau technegol ac ystadegol a rhestr termau; ac
- **Ar gyfer defnyddwyr:** canllawiau ar sut i wella eu profiad o ddefnyddio ffonau symudol.

## Beth rydym wedi ei ganfod – yn gryno

- **Ar gyfartaledd, cafodd cysylltiad symudol a oedd yn cyrraedd ein trothwyon perfformiad da ar gyfer cyflymder cysylltu ac amser ymateb ei gyflawni 81% o'r amser.** Roedd hyn yn is na'n meincnod arfaethedig y dylai cysylltiad sy'n cyrraedd y trothwyon hyn (a ddylai ddarparu profiad defnyddwyr cryf yn gyffredinol) gael ei gyflawni 90% o'r amser. Roedd y sgôr perfformiad gyfartalog dros 5G (92%) yn uwch na'r perfformiad trothwy arfaethedig, sy'n awgrymu y bydd sgoriau perfformiad yn cynyddu dros amser wrth i argaeledd a defnydd 5G gynyddu.
- **Roedd perfformiad symudol yn amrywio'n fawr rhwng rhanbarthau awdurdodau lleol y DU.** Mae ein dadansoddiad yn dangos nad oedd yr un o 360 rhanbarth awdurdod lleol y DU a gynhwyswyd yn ein dadansoddiad<sup>10</sup> yn cyflawni meincnod arfaethedig Ofcom o 90% o gysylltiadau symudol yn cyrraedd neu'n rhagori ar bob un o'n trothwyon sgôr perfformiad da arfaethedig ar gyfer cysylltedd.<sup>11</sup> Roedd gwahaniaeth o 20 pwynt canran rhwng sgoriau perfformiad isaf ac uchaf a gofnodwyd ar gyfer rhanbarthau awdurdodau lleol, a oedd yn amrywio o 68% yng Ngorllewin Dyfnaint i 88% yn Watford.
- **Roedd amrywiadau hefyd yn ansawdd rhwydweithiau symudol ar draws gwledydd y DU.** Ar lefel y DU, nid oedd yr un o'r rhwydweithiau symudol yn bodloni meincnod arfaethedig Ofcom o 90%. Roedd hyn hefyd yn wir ym mhob un o'r gwledydd, lle'r oedd perfformiad yn gyffredinol (h.y. ar draws pob rhwydwaith) ar ei gryfaf yn Lloegr (gyda sgôr perfformiad gyfartalog o 82%), ac yna Gogledd Iwerddon (81%); roedd sgoriau yn yr Alban (79%) a Chymru (76%) yn is na chyfartaledd y DU sef 81%.
- **EE oedd â'r perfformiad gorau o blith pedwar rhwydwaith y DU,** gyda'r sgôr perfformiad cyffredinol uchaf (85%) a'r sgôr uchaf o blith yr holl wledydd ar wahân i Ogledd Iwerddon, lle roedd Vodafone ar y brig. O2 oedd â'r sgoriau perfformiad isaf yn nhair o'r pedair gwlad, a'r sgôr isaf yn y DU, sef 77%. O2 hefyd oedd â'r amrywiad mwyaf mewn sgoriau perfformiad ar draws y gwledydd (o 65% yng Nghymru i 80% yng Ngogledd Iwerddon), ac EE oedd y mwyaf cyson (o 82% yng Ngogledd Iwerddon a Chymru i 85% yn Lloegr).
- **Roedd gan ardaloedd trefol sgoriau perfformiad uwch nag ardaloedd gwledig ym mhob gwlad.** Ar lefel y DU, roedd y sgôr perfformiad trefol cyfartalog (82%) 7 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd gwledig (75%), gyda'r gwahaniaethau trefol/gwledig mwyaf yn digwydd yn Lloegr (9 pwynt canran) a Gogledd Iwerddon (6 pwynt canran), o'i gymharu â 5 pwynt canran yn yr Alban a 4 pwynt canran yng Nghymru. Roedd sgoriau perfformiad mewn ardaloedd dethol yng nghanol dinasoedd, gan gynnwys canol Llundain, yn uwch na'r cyfartaledd ond yn dal yn is na'r meincnod arfaethedig o 90%, gan amrywio o 81% ym Mryste a Chaeredin i 86% yn Llundain.
- **Roedd gwahaniaethau perfformiad yn cael eu sbarduno gan fynediad at y cysylltedd cyflymach a gynigir gan 5G.** Profodd defnyddwyr ym mhob un o'r pedair gwlad gyfraddau llwyddiant tebyg o ran gwneud cysylltiad data a ffrydio fideo'n ddibynadwy. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau mewn mynediad 5G wedi cyfrannu at amrywiadau mewn perfformiad rhwng y gwledydd ac ardaloedd trefol a gwledig, gan fod 5G yn gyffredinol wedi darparu gwell perfformiad na 4G ar draws mesurau lawrlwytho, uwchlwytho ac oedi. Roedd defnyddwyr trefol

<sup>10</sup> Cafodd Ynysoedd Sili eu heithrio o'n dadansoddiad oherwydd canlyniadau profion annigonol.

<sup>11</sup> Mae ein sgôr perfformiad da yn defnyddio cyfradd trosglwyddo lawrlwytho ffeiliau 5 Mbit yr eiliad, cyfradd trosglwyddo llwytho ffeiliau i fyny 1.5 Mbit yr eiliad, a throthwyon oedi (amser ymateb) 50 milieiliad un ffordd i ddangos y tebygolrwydd y bydd defnyddiwr yn gallu ymuno â rhwydwaith symudol a chael cysylltedd sy'n gallu cefnogi'r defnydd o apiau a gwasanaethau bob dydd. Rydym wedi cynnig meincnod y dylai pobl yn y DU allu cael cysylltedd o'r fath o leiaf naw gwaith allan o ddeg.

hefyd yn tueddu i elwa o gysylltiadau cyflymach na'r rhai yn defnyddio'r un dechnoleg symudol mewn ardaloedd gwledig.

- **Roedd sgôr perfformiad cyfartalog 4G (78%) yn sylweddol is na'r rhai ar gyfer cysylltiadau 5G SA a 5G NSA (y ddau yn 92%).** Ar draws y tair technoleg, roedd sgoriau perfformiad is yn tueddu i fod oherwydd bod cysylltiadau'n methu â chyrraedd y trothwyon perfformiad da sylfaenol o ran cyfradd trosglwyddo uwchlwytho a lawrlwytho o 1.5 Mbit yr eiliad a 5 Mbit yr eiliad yn y drefn honno,<sup>12</sup> yn hytrach na bod ganddynt amser ymateb (oedi) a oedd yn fwy na'r trothwy 50 milieiliad.
- **4G yw'r dechnoleg symudol sy'n cael ei defnyddio amlaf ledled y DU o hyd,** er gwaethaf twf parhaus yn argaeledd 5G. Roedd 4G yn cyfrif am 75% o'r ymdrechion i gysylltu i ddefnyddio data yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, 78% yn yr Alban ac 82% yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y gallai defnyddwyr yng Nghymru fod yn fwy agored i'r perfformiad cymharol arafach sy'n gysylltiedig fel arfer â 4G o'i gymharu â 5G.

---

<sup>12</sup> Daw'r mesuriadau cyflymder a ddefnyddir i gyfrifo'r sgôr perfformiad da o ganlyniadau profion trosglwyddo ffeiliau bach tebyg i'r rhai a ddefnyddir hefyd i gyfrifo'r amser i lwytho metrigau i lawr a'r amser i lwytho metrigau i fyny sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn wahanol i'r profion wedi'u hamseru a ddefnyddir i gael y dosbarthiadau cyflymder lawrlwytho a uwchlwytho a gyflwynir gennym hefyd yn yr adroddiad hwn. Gweler tudalen 13 am ragor o fanylion.

# Sgoriau perfformiad cyffredinol rhwydweithiau symudol

Mae cwsmeriaid yn disgwyl gallu gwneud gweithgareddau bob dydd ar eu ffonau symudol – fel pori'r we, anfon negeseuon, defnyddio cyfryngau cymdeithasol, galwadau fideo a ffrydio fideos – a chael profiad cyson wrth wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bob amser, ac mae gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng rhwydweithiau, technolegau a lleoliadau.

Cynhaliodd Ofcom ymchwil ansoddol yn 2025 ar [profiadau defnyddwyr a dealltwriaeth o ansawdd rhwydwaith symudol](#). Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn fodlon ar ansawdd eu rhwydwaith symudol ac yn teimlo ei fod fel arfer yn ddigon da, gan weithio pryd a ble roedd ei angen arnynt y rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag, cafwyd problemau gyda pherfformiad rhwydwaith, a nodwyd bod ansawdd rhwydwaith yn amrywio mewn rhai lleoliadau, fel ar drafnidiaeth gyhoeddus, mewn ardaloedd gwledig ac adeiladau a mannau cyhoeddus prysur (fel canolfannau siopa a stadia), ac mewn mannau digyswllt hysbys yn eu hardaloedd lleol.<sup>13</sup>

## Sut beth yw perfformiad symudol da

Mae Ofcom wedi diffinio beth yw profiad symudol da a dibynadwy ar sail y perfformiad sydd ei angen i ddarparu profiad defnyddiwr cyffredinol cryf ar gyfer apiau a gwasanaethau y mae pobl yn eu defnyddio'n rheolaidd ar eu ffonau clyfar pan fyddant ar grwydr, fel ffrydio fideo ar YouTube a Netflix, neu wneud galwadau fideo. Diffinnir perfformiad da fel cysylltedd sy'n darparu:

- Cyflymder lawrlwytho o 5 Mbit yr eiliad o leiaf;<sup>14</sup>
- a chyflymder uwchlwytho o 1.5 Mbit yr eiliad o leiaf;<sup>15</sup>
- Oedi (amser ymateb) o ddim mwy na 50 milieiliad un ffordd.<sup>16</sup>

Mae'r trothwyon mesur hyn wedi'u cyfuno â chyfraddau llwyddiant cysylltiadau i ddefnyddio data i gynhyrchu sgôr perfformiad da Mapio Eich Ffôn Symudol. Er enghraifft, mae sgôr perfformiad o 80% ar gyfer ardal benodol yn golygu y gall defnyddiwr yn y lleoliad hwnnw ddisgwyl gallu cael profiad da (h.y. cael gwasanaeth sy'n dda drwy fodloni a/neu ragori ar y trothwyon a amlinellir uchod) 80% o'r amser pan fydd darpariaeth ar gael.<sup>17</sup> Ar y llaw arall, efallai ei fod yn arwydd o brofiad is na'r safon 20% o'r amser.

<sup>13</sup> [Ofcom - Profiadau Defnyddwyr a Dealltwriaeth o Ansawdd Rhwydwaith Symudol, 2025](#). Roedd yr ymchwil yn cynnwys deg grŵp ffocws 90 munud ar-lein (6-7 cyfranogwr fesul grŵp) a deuddeg cyfweiliad manwl 60 munud ar-lein, gyda gwaith maes yn cael ei gynnal rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2025.

<sup>14</sup> Dros gysylltiad 5 Mbit yr eiliad, bydd 1 MB o ddata yn cymryd tua 1.6 eiliad i'w lawrlwytho.

<sup>15</sup> Dros gysylltiad 1.5 Mbit yr eiliad, bydd yn cymryd tua 5.4 eiliad i lwytho 1 MB o ddata i fyny.

<sup>16</sup> Daw'r mesuriadau cyflymder cysylltu a ddefnyddir i gyfrifo'r sgôr perfformiad da o ganlyniadau profion trosglwyddo ffeiliau bach tebyg i'r rhai a ddefnyddir hefyd i ganfod yr amser i lwytho metrigau i lawr a'r amser i lwytho metrigau i fyny sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Cyfrifir oedi fel hanner yr Amser Hap-Grwn (RTT/2), sy'n amcangyfrif yr oedi unffordd i becyn data deithio o ddyfais symudol i weinydd. Mae'r cyfrifiad yn defnyddio'r mesur isaf o RTT ar draws 100 pecyn UDP.

<sup>17</sup> Mae data perfformiad torfol yn adlewyrchu profiad defnyddwyr mewn lleoliadau lle gellir gwneud ymgais i gysylltu. Nid yw'n cynnwys lleoliadau lle nad oes darpariaeth ar gael ac felly nid yw cysylltedd yn bosibl, sy'n

Yn ein papur trafod [Cysylltedd y gallwch ddibynnu arno](#), roedden ni'n cynnig y dylai pob rhwydwaith symudol gyflawni sgôr perfformiad da meincnod o 90% o leiaf ym mhob ardal.. Gall y meincnod arfaethedig hwn, a'r trothwyon sylfaenol, esblygu dros amser i adlewyrchu newidiadau mewn technoleg, ymddygiad defnyddwyr, achosion defnydd a disgwyliadau gwasanaeth.

## Sgoriau perfformiad da ar gyfer dyfeisiau symudol yn y DU a'r gwledydd

---

Ledled y DU, roedd 81% o brofion yn cyrraedd ein trothwyon perfformiad da yn 2025/26, 9 pwynt canran yn is na'n meincnod arfaethedig o 90%. Cofnododd Lloegr (82%), a Gogledd Iwerddon (81%) sgoriau perfformiad tebyg, ac roedd y rhai yn yr Alban (79%) a Chymru (76%) yn is.

Er bod y sgoriau perfformiad uchod yn cyfuno canlyniadau 4G a 5G, mae'r dadansoddiad sylfaenol yn dangos bod perfformiad 5G yn sylweddol well na'r hyn a ddarparwyd dros 4G, gyda sgôr perfformiad 5G (92%) 14pc yn uwch na 4G (78%) ar lefel y DU.

Roedd gan ardaloedd trefol sgoriau perfformiad uwch nag ardaloedd gwledig ym mhob gwlad. Ar lefel y DU, roedd y sgôr drefol (82%) 7 pwynt canran yn uwch na'r sgôr wledig (75%), gyda'r gwahaniaeth lleiaf rhwng sgoriau perfformiad trefol a gwledig yng Nghymru, sef 4 pwynt canran.


Fe wnaethom hefyd gymharu sgoriau perfformiad pedwar rhwydwaith symudol y DU<sup>18</sup> yn ôl gwlad a oedd yn amrywio o 65% o gysylltiadau O2 yng Nghymru a oedd yn cyrraedd y meincnod arfaethedig ar gyfer perfformiad symudol da, i 85% ar gyfer EE yn Lloegr. O fewn gwledydd, roedd y gwahaniaethau rhwng gweithredwyr yn fwyaf amlwg yng Nghymru lle'r oedd y sgoriau'n amrywio o 65% ar gyfer O2 i 82% ar gyfer EE, gwahaniaeth o 17 pwynt canran. EE oedd â'r sgôr perfformiad uchaf mewn tair o'r pedair gwlad, gan roi'r sgôr perfformiad uchaf iddo ar lefel y DU (85%), ac O2 oedd â'r sgôr isaf mewn tair o'r pedair gwlad, gan roi sgôr gyffredinol o 77% iddo yn y DU.

---

golygu y gallai profiad cyffredinol defnyddwyr fod yn waeth nag y mae'r ffigurau hyn yn unig yn ei awgrymu. Mae argaeledd signal a pherfformiad rhwydwaith yn bwysig i brofiad pobl yn y byd go iawn.

<sup>18</sup> Er bod Vodafone a Three wedi uno i greu VodafoneThree ym mis Mai 2025, rydym yn cyflwyno data ar wahân ar gyfer Vodafone a Three yn yr adroddiad hwn gan nad yw eu rhwydweithiau wedi'u cyfuno'n llawn eto.

**Ffigur 2: Sgôr perfformiad rhwydwaith symudol yn ôl gwlad, gwledigrwydd a rhwydwaith symudol: 2025/26**



*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata torfol Opensignal, gan ddefnyddio'r sgôr perfformiad da.*

*Nodiadau: Mae'r ffigurau hyn yn diweddarau'r rhai a gyhoeddwyd ym mhapur trafodaeth Ofcom [Cysylltedd y gallwch ddibynnu arno](#); mae'r data'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026 ac yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

# Sgoriau perfformiad symudol awdurdodau lleol


Rydym wedi defnyddio'r un fethodoleg i edrych ar berfformiad rhwydweithiau symudol ar lefel rhanbarth awdurdod lleol (LAD), gan ddarparu golwg fanylach na'r dadansoddiad seiliedig ar y gwledydd a ddarparwyd uchod.

Gellir archwilio'r mapiau a'r data ar LAD unigol yn fanylach yn ein [hadroddiad rhyngweithiol](#).

Mae'r map gwres isod yn dangos sgôr perfformiad pob LAD gan ystyried mesuriadau o bob rhwydwaith, gan ddangos bod perfformiad symudol yn amrywio'n sylweddol yn y DU ac y gall cyfartaleddau cenedlaethol guddio amrywiadau lleol sylweddol yn y profiad symudol. Roedd y rhanbarthau awdurdodau lleol a oedd yn perfformio'n well i'w cael yn bennaf mewn ardaloedd trefol a maestrefol, ac roedd y rhai a oedd yn sgorio'n is mewn lleoliadau gwledig neu lai poblog yn bennaf. Dengys ein dadansoddiad bod gwahaniaeth o 20 pwynt canran rhwng y sgoriau perfformiad da isaf (68% yng Ngorllewin Dyfnaint) a'r uchaf (88% yn Watford) a gofnodwyd ar draws y 360 LAD a gynhwyswyd yn ein dadansoddiad.

Nid oedd yr un o'r LAD wedi cyrraedd y meincnod perfformiad da arfaethedig o 90% gan ystyried mesuriadau o bob rhwydwaith, er bod gan 16% o'r LAD sgoriau perfformiad o 85% neu uwch; roedd gan 43% o'r LAD sgoriau o dan 80%, 10pc neu fwy yn is na'r meincnod arfaethedig.

**Ffigur 3: Perfformiad rhwydweithiau symudol, yn ôl rhanbarth awdurdod lleol: 2025/26**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata torfol Opensignal, gan ddefnyddio'r sgôr perfformiad da.*

*Sylwch: Mae'r data'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026 ac yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

Mae'r siart isod yn adlewyrchu'r perfformiad gwell a ddarperir gan rwydweithiau 5G o'i gymharu â 4G. Er nad oedd gan yr un o'r LAD sgôr perfformiad da a oedd yn bodloni ein meincnod arfaethedig o 90% yn 2025/26, roedd gan dros eu hanner sgôr o'r fath ar gyfer 5G. Mae hyn yn cyd-fynd â'n dadansoddiad ar lefel y DU sy'n dangos bod y sgôr perfformiad 4G gyfartalog (78%) tua 14 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd o 92% dros 5G SA a 5G NSA.

**Ffigur 4: Dosbarthiad sgoriau perfformiad rhanbarthau awdurdodau lleol, yn ôl technoleg: 2025/26**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata torfol Opensignal, gan ddefnyddio'r sgôr perfformiad da.*

*Sylwch: Mae'r data'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026 ac yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

Mae'r mapiau isod yn dangos y sgoriau perfformiad ar gyfer pob un o'r rhwydweithiau symudol yn y rhanbarthau llywodraeth leol yr oeddem wedi edrych arnynt. Mae fersiwn ryngweithiol o'r mapiau hyn ar gael yn [ein hadroddiad rhyngweithiol](#).


**Ffigur 5: Perfformiad rhwydweithiau symudol, yn ôl rhanbarth awdurdod lleol a rhwydwaith: 2025/26**



*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata torfol Opensignal, gan ddefnyddio'r sgôr perfformiad da.*  
*Sylwch: Mae'r data'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026 ac yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad sgoriau perfformiad LAD yn ôl rhwydwaith. Mae hyn yn dangos, o'r pedwar rhwydwaith symudol, mai dim ond EE a Three (fel y dangoswyd yn flaenorol, y rhwydweithiau â'r sgoriau perfformiad cyffredinol uchaf ar lefel y DU) oedd yn darparu perfformiad rhwydwaith a oedd yn bodloni ein meincnod sgôr perfformiad da arfaethedig o 90% yn unrhyw un o'r 360 rhanbarth awdurdod lleol a gynhwyswyd yn ein dadansoddiad<sup>19</sup>.

**Ffigur 6: Dosbarthiad sgoriau perfformiad rhanbarthau awdurdodau lleol, yn ôl rhwydwaith: 2025/26**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata torfol Opensignal, gan ddefnyddio'r sgôr perfformiad da.*  
*Sylwch: Mae'r data'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026 ac yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

<sup>19</sup> Cafodd Ynysoedd Sili eu heithrio o'n dadansoddiad oherwydd canlyniadau profion annigonol.

Canfu ein dadansoddiad hefyd fod y sgoriau perfformiad da a gofnodwyd mewn ardaloedd yng nghanol dinasoedd fel arfer yn uwch na chyfartaledd y DU. Ymysg bron pob un o'r 15 o ardaloedd canol dinas y buom yn edrych arnynt, roedd y sgôr perfformiad yn uwch na chyfartaledd y DU sef 81%, yn amrywio o 81% ym Mryste a Chaeredin i 86% yng nghanol Llundain.

**Ffigur 7: Sgoriau perfformiad ar gyfer rhanbarthau awdurdodau lleol dethol canol dinas: 2025/26**



*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata torfol Opensignal, gan ddefnyddio'r sgôr perfformiad da.*

*Nodiadau: Yn y dadansoddiad hwn, rydym wedi diffinio ardaloedd canol dinas fel y rhanbarth awdurdod lleol (LAD) sy'n cynnwys prif ardal canol y ddinas; lle mae canol dinas yn cwmpasu sawl LAD, cafodd pob un perthnasol ei gynnwys; mae'r data'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026 ac yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

# Perfformiad rhwydweithiau symudol yn ôl metrig a thechnoleg

## Mae mesurau perfformiad unigol yn cynnig cipolwg pellach

Er bod y sgôr perfformiad da yn cyfuno nifer o fesurau yn ddangosydd perfformiad cryno defnyddiol, mae dadansoddi metrigau unigol ar wahân yn helpu i nodi agweddau ar berfformiad rhwydweithiau symudol sy'n sbarduno'r gwahaniaethau cyffredinol a welwyd rhwng gweithredwyr ac ardaloedd daearyddol.

Mae'r metrigau a amlinellir isod yn cyfrannu at brofiad cyffredinol y defnyddiwr. Yn ogystal â'r metrigau a ddefnyddir yn y sgôr perfformiad, mae'r rhain yn cynnwys cyfraddau llwyddiant ffrydio fideo oherwydd bod hyn yn ddangosydd allweddol o ddibynadwyedd a chysondeb rhwydwaith.

Rydym yn adrodd ar ganlyniadau 5G ar wahân ar gyfer 5G nad yw'n sefyll ar ei ben ei hun (5G NSA) a 5G annibynnol (5G SA). Ar hyn o bryd mae'r NSA 5G ar gael yn ehangach yn y DU ac mae'n defnyddio seilwaith rhwydwaith 4G presennol ochr yn ochr â mynediad radio 5G. Mae 5G SA yn defnyddio rhwydwaith craidd 5G pwrpasol sy'n gallu cefnogi galluoedd uwch, ond mae darpariaeth yn dal i ddatblygu.<sup>20</sup>

Mae dadansoddiad yn ôl rhwydwaith symudol, gwlad a gwledigrwydd ar gael yn yr adrannau isod.

## Mesur perfformiad uwchlwytho a lawrlwytho

Rydym yn cymharu perfformiad lawrlwytho a uwchlwytho mewn dwy ffordd yn yr adroddiad hwn:

- drwy edrych ar yr amser a gymerir i lawrlwytho a uwchlwytho ffeiliau o feintiau sefydlog yn llawn (ffeiliau 2 MB a 5 MB ar gyfer perfformiad lawrlwytho, a ffeiliau 1 MB ar gyfer perfformiad uwchlwytho);<sup>21</sup> ac
- edrych ar ddosbarthiad cyflymderau uwchlwytho a lawrlwytho drwy brofion hirach.

Mae'r profion trosglwyddo meintiau sefydlog llai yn bwysig gan eu bod yn dangos defnydd nodweddiadol defnyddwyr ar ddyfeisiau symudol (er enghraifft lawrlwytho neu rannu lluniau a chlipiau fideo byr, eglurder isel). Fodd bynnag, ar gysylltiadau cyflymach, gall y profion trosglwyddo ffeiliau hyn gael eu cwblhau cyn i gysylltiad gynyddu i gyflymder llawn, ac felly efallai na fydd y

---

<sup>20</sup> Mae diweddariad [Cysylltu'r Gwledydd diweddaraf](#) Ofcom yn dangos bod y ddarpariaeth 5G annibynnol a ragwelir y tu allan i adeiladau yn amrywio rhwng 49% ac 85% ar draws y tri rhwydwaith symudol sydd wedi cyflwyno 5G SA. Nid yw argaeledd yn gyffredinol eto ac mae'n amrywio yn ôl gweithredwr a lleoliad, felly mae 5G nad yw'n sefyll ar ei ben ei hun yn parhau i fod y math o 5G sydd ar gael yn fwyaf eang i lawer o ddefnyddwyr.

<sup>21</sup> Mae mesuriadau o amseroedd llwytho ffeil sefydlog i lawr ac i fyny yn seiliedig ar drosglwyddiadau sydd wedi'u cwblhau'n llwyddiannus yn unig ac nid ydynt yn cynnwys profion lle mai dim ond yn rhannol y cafodd y ffeil ei lawrlwytho neu ei uwchlwytho.

canlyniadau'n nodi gallu mwyaf y cysylltiad (er enghraifft, byddai prawf lawrlwytho ffeil 5 MB yn cael ei gwblhau mewn 0.4 eiliad yn unig ar gysylltiad 5G 100 Mbit yr eiliad).

Am y rheswm hwn, mae ein dadansoddiad o ddosbarthiad cyflymderau lawrlwytho a uwchlwytho yn seiliedig ar y cyflymderau cyfartalog a gyfrifir gan ddefnyddio profion sy'n seiliedig ar amser. Mae'r profion hyn yn mesur faint o ddata sy'n cael ei drosglwyddo dros gyfnod penodol, ac yn caniatáu i'r cysylltiad gyrraedd y cyflymder gorau posibl.<sup>22</sup> Mae rhagor o fanylion ar gael yn y [ddogfen Methodoleg](#) ar wahân.

**Ffigur 8: Metrigau (mewn ardaloedd darpariaeth) sy'n pennu profiad defnyddwyr symudol**

| Metrig                                                    | Beth ydyw                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Effaith ar berfformiad symudol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|-----------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Cyfradd llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data</b>      | Cyfran yr ymdrechion cysylltu i ddefnyddio data sy'n llwyddo i gysylltu â rhwydwaith symudol pan fydd y defnyddiwr mewn ardal lle ceir darpariaeth.                                                                                                                                                                                                                                       | Nid yw bod mewn ardal ddarpariaeth yn gwarantu cysylltiad llwyddiannus oherwydd gall ffactorau fel signal gwan neu dagfeydd ar y rhwydwaith a achosir gan draffig symudol trwm gyfyngu ar fynediad neu ei atal. Felly, mae cyfradd llwyddiant cysylltiadau i ddefnyddio data yn adlewyrchu pa mor aml y gall defnyddwyr fynd ar-lein i gael gafael ar wasanaethau data pan fyddant mewn ardal ddarpariaeth. Mae cyfraddau llwyddiant isel yn golygu llwytho aflwyddiannus, a/neu apiau ddim yn gweithio pan fo angen.                                                                                                                      |
| <b>Cyfran o geisiadau i gysylltu â rhwydwaith symudol</b> | Cyfran yr ymdrechion cysylltu i ddefnyddio data a gofnodwyd ar gyfer pob technoleg symudol, fel 4G, 5G NSA neu 5G SA, pan fydd defnyddwyr o fewn y ddarpariaeth a bod ganddynt ddyfais a chynllun gwasanaeth cydnaws.<br><br>Rydym yn edrych ar gyfrannau technoleg ymdrechion i gysylltu i ddefnyddio data symudol pan fydd dyfais defnyddiwr eisoes wedi cysylltu â rhwydwaith symudol. | Mae'r metrig hwn yn dangos y technolegau symudol sydd ar gael i ddefnyddwyr pan fydd eu dyfais yn ceisio gwneud cysylltiad â data, gan roi syniad o argaeledd rhwydwaith. Fodd bynnag, bydd yn tanddatgan argaeledd cyffredinol technolegau symudol mwy newydd (yn enwedig 5G).<br><br>Er enghraifft, ni fydd defnyddiwr yn gallu cysylltu â 5G oni bai fod ei weithredwr yn rhoi darpariaeth SA 5G yn ei leoliad, bod ei ddyfais yn cefnogi 5G SA, a bod ei gynllun tariff yn caniatáu mynediad ato. O ganlyniad, efallai y bydd y gyfran o gysylltiadau 5G SA a welwyd gennym yn llawer is nag y mae'r ffigurau argaeledd yn ei awgrymu. |
| <b>Cyfradd llwyddiant ffrydio fideos</b>                  | Cyfran yr enghreifftiau o ffrydio fideo 20 eiliad a gwblhawyd yn llwyddiannus heb i'r fideo stopio chwarae.                                                                                                                                                                                                                                                                               | Mae hyn yn dangos pa mor aml y gall defnyddwyr ffrydio fideo heb ymyriadau, byffro neu gael sesiynau gwylio sy'n methu, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar brofiad y defnyddiwr.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |

<sup>22</sup> Mae profion sy'n seiliedig ar amser yn effeithiol o ran cofnodi perfformiad cysylltiadau cyflym iawn. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad o'u canlyniadau hefyd yn cynnwys profion sy'n cael eu cynnal ar gysylltiadau araf iawn, na fyddant yn ymddangos yng nghanlyniadau profion lawrlwytho a uwchlwytho ffeiliau bach os nad yw'r broses o drosglwyddo ffeiliau wedi'i chwblhau.

| Metrig                                                                          | Beth ydyw                                                                                                             | Effaith ar berfformiad symudol                                                                                                                                                                                                                  |
|---------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Amser ymateb (oedi)</b>                                                      | Yr amser mae'n ei gymryd i'r rhyngwrwyd ymateb ar ôl i ddyfais defnyddiwr anfon cais, wedi'i fesur mewn milieiliadau. | Mae amseroedd ymateb is yn gwneud i apiau a gwasanaethau deimlo'n gyflymach ac yn fwy llyfn; gall amseroedd ymateb uwch wneud i weithgareddau lusgo.                                                                                            |
| <b>Dosbarthiad cyflymder lawrlwytho a'r amser i lwytho ffeiliau bach i lawr</b> | Pa mor gyflym mae data'n cael ei drosglwyddo o'r rhyngwrwyd i ddyfais defnyddiwr, wedi'i fesur mewn Mbit yr eiliad.   | Mae lawrlwytho yn gyflymach yn golygu bod cynnwys yn llwytho'n gyflymach, gan wella gweithgareddau fel pori'r we, ffrydio, llwytho apiau i lawr a chael gafael ar ffeiliau mawr. Gall lawrlwytho arafach arwain at oedi, byffro neu ansawdd is. |
| <b>Dosbarthiad cyflymder uwchlwytho a'r amser i lwytho ffeiliau bach i fyny</b> | Pa mor gyflym mae data'n cael ei drosglwyddo o ddyfais defnyddiwr i'r rhyngwrwyd, wedi'i fesur mewn Mbit yr eiliad.   | Mae uwchlwytho cyflymach yn helpu defnyddwyr i anfon cynnwys yn gyflym a chefnogi galwadau fideo mwy llyfn, ffrydio byw, gwneud copi wrth gefn yn y cwmwl a rhannu lluniau neu ffeiliau; gall uwchlwytho arafach achosi oedi neu ansawdd is.    |

*Ffynhonnell: Ofcom.*

# Perfformiad symudol ar lefel y DU

Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar berfformiad cysylltedd ar lefel y DU gan ddefnyddio'r metrigau perfformiad unigol sy'n pennu ein hasesiad o brofiad cyffredinol defnyddwyr symudol, fel y nodir yn Ffigur 8 uchod.

Gwelsom fod defnyddwyr symudol yn y DU fel arfer yn gallu cysylltu â rhwydwaith symudol ar yr amod bod darpariaeth ar gael, gyda chyfraddau llwyddiant cyfartalog cysylltiadau â data dros 96% ar 4G a 98% ar 5G.<sup>23</sup> Roedd dros 94% o'r ffrydiau fideo 20 eiliad 5G a dros 89% o'r ffrydiau fideo 20 eiliad 4G wedi'u cwblhau heb ymyrraeth, er bod y cyfrannau lle nad oedd ansawdd y llun yn gostwng dan eglurder HD yn is (89% a 77% yn y drefn honno).<sup>24</sup>

Er bod 5G SA yn galluogi gwell perfformiad symudol yn gyffredinol, mae ein dadansoddiad yn dangos nad yw eto'n perfformio'n sylweddol well na 5G NSA wrth lawrlwytho neu uwchlwytho. Gostyngodd perfformiad lawrlwytho ar 5G SA yn 2025/26, gyda chyfran y cyflymderau lawrlwytho a gofnodwyd dan 5 Mbit yr eiliad yn cynyddu o 2% i 4%, a'r gyfran a gofnodwyd ar 50 Mbit yr eiliad neu uwch yn gostwng i 68%.<sup>25</sup> O ganlyniad, roedd amseroedd lawrlwytho ffeiliau 5G SA a dosbarthiad trwybwn yn cyd-fynd yn fras â'r rhai a welwyd ar 5G NSA, fel yr oedd yn wir am berfformiad uwchlwytho.

Roedd bwlch sylweddol rhwng perfformiad 4G a 5G. Roedd llwytho 2 ffeil MB a 5 MB i lawr, a llwytho ffeiliau 1 MB i fyny wedi cymryd tua dwywaith cymaint o amser ar 4G ag ar 5G. Roedd deunaw y cant o lwythiadau i lawr 4G dan drothwy sgôr perfformiad 5 Mbit yr eiliad, o'i gymharu â dim ond 3% ar 5G NSA a 4% ar 5G SA. Roedd 4G hefyd yn llai tebygol o ddarparu cysylltiadau capasiti uwch: Roedd 51% o gyflymderau lawrlwytho 4G yn uwch na 20 Mbit yr eiliad ac roedd 9% yn 100 Mbit yr eiliad neu'n gyflymach, o'i gymharu ag 85% a 47% yn y drefn honno dros 5G NSA. Fodd bynnag, dylid nodi bod 5G yn rhwydwaith sy'n esblygu ac y bydd ei ddefnydd cychwynnol yn llai dwys na rhwydweithiau 4G mwy aeddfed, gan ei helpu i sicrhau cysylltiadau cyflymach.

Ar gyfer uwchlwytho, roedd 29% o'r profion yn cyflawni cyflymder o 10 Mbit yr eiliad neu uwch ar 4G, o'i gymharu â 50% ar 5G NSA, ac roedd cyfran uwchlwytho 4G a oedd dan 1.5 Mbit yr eiliad (27%) tua dwywaith cymaint â thros 5G NSA (14%). Unwaith eto, efallai na fydd gwahaniaethau o'r fath rhwng 4G a 5G yn amlwg i'r defnyddiwr.

---


<sup>23</sup> Nid yw bod mewn ardal darpariaeth rhwydwaith symudol yn gwarantu gallu cysylltu'n llwyddiannus â rhwydwaith oherwydd gall problemau fel signal gwan, tagfeydd ar y rhwydwaith, a chyfnodau segur ar wasanaethau gyfyngu neu atal mynediad. Mae cyfradd llwyddiant cysylltiadau i ddefnyddio data yn dangos pa mor aml y gellid cael mynediad at wasanaethau data pan oedd y defnyddiwr mewn ardal ddarpariaeth.

<sup>24</sup> Mae prawf ffrydio fideo Opensignal yn ffrydio fideo prawf 20 eiliad i ddyfais y defnyddiwr. Mae'r prawf yn seiliedig ar gyfradd bitiau addasol, sy'n golygu y gall eglurder y fideo amrywio yn ystod y prawf yn dibynnu ar ansawdd y cysylltiad. Mae eglurder o 144c i 2160p (4k) yn cael ei gynnal ac mae'r eglurder cychwynnol sy'n cael ei ffrydio yn cael ei ddewis ar sail capasiti'r cysylltiad sy'n cael ei adrodd gan system weithredu'r ddyfais. Mae fideos sy'n rhedeg ar 144c i 480c yn rhedeg ar 30 ffrâm yr eiliad (fps), ac mae'r rhai sy'n rhedeg ar 1080c, 1440c a 2160c yn rhedeg ar 60 ffrâm yr eiliad. Mae fideos 720c hefyd yn rhedeg ar 60 ffrâm yr eiliad os yw'r gyfradd data yn ddigonol i gefnogi hynny (o leiaf 3.3 Mbit yr eiliad), neu fel arall maen nhw'n rhedeg ar 30 ffrâm yr eiliad. Y canrannau a ddangosir yw'r cyfrannau o ffrydiau fideo 20 eiliad a gwblhaodd heb ddigwyddiad byffro, ni waeth ar ba lefel eglurder y cafodd y fideo ei ffrydio.

<sup>25</sup> Gall newidiadau dros amser gael eu hachosi gan ffactorau ar wahân i berfformiad rhwydwaith symudol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod defnyddwyr sy'n gallu cael gafael ar 5G yn lawrlwytho ac yn uwchlwytho yn llawer cyflymach. Fodd bynnag, 4G yw'r brif dechnoleg o hyd ar gyfer defnydd symudol bob dydd, gan gyfrif am 75% o'r ymdrechion i gysylltu i ddefnyddio data er gwaethaf twf parhaus yn y defnydd o 5G. Mae cwsmeriaid yn dal yn debygol o gael gwasanaeth dibynadwy ar 4G wrth wneud galwadau fideo, ond efallai y byddant yn aros yn hirach wrth lwytho ffeiliau mwy i lawr, rhannu lluniau neu fideos.

**Ffigur 9: Crynodeb o berfformiad rhwydwaith symudol y DU: 2024/25 a 2025/26<sup>26</sup>**



<sup>26</sup> Mae amseroedd llwytho ffeiliau bach i lawr ac i fyny yn seiliedig ar brofion maint ffeil sefydlog, tra bo'r dosbarthiadau trwybwn lawrlwytho ac i fyny yn seiliedig ar ganlyniadau profion sy'n seiliedig ar amser. Gweler tudalen 13 am ragor o fanylion.

*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae data a labelwyd yn 2024/25 neu 24/25 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, ac mae'r data a labelwyd yn 2025/26 neu 25/26 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026; gall newidiadau dros amser gael eu hachosi gan ffactorau ar wahân i berfformiad rhwydwaith symudol; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol; nid yw'r cyfraddau llwyddiant ffrydio fideo a ddangosir uchod yn cynnwys ffrydiau y gostyngodd eu heglurder o dan HD ar unrhyw adeg yn ystod y prawf; ni ellir cymharu ffigurau cyfradd llwyddiant ffrydio fideo â'r rhai mewn adroddiadau Materion Symudol cynharach, gan eu bod yn cyfrif profion nad oeddent wedi'u cwblhau fel methiannau, pan gafodd y rhain eu heithrio o'r dadansoddiad yn flaenorol. Roedd y rhain yn cyfrif am 6% o'r holl brofion ac efallai eu bod wedi methu oherwydd ffactorau nad oeddent yn gysylltiedig â'r rhwydwaith.*

# Perfformiad symudol yn ôl rhwydwaith

## Cyfran o ymdrechion i gysylltu â rhwydwaith symudol


Dylanwadir yn drwm ar berfformiad symudol yn gyffredinol gan y dechnoleg a ddefnyddir i gysylltu â rhwydwaith. Yn gyffredinol, mae perfformiad 5G yn well na 4G, sy'n well na pherfformiad 2G/3G. Felly, mae rhwydweithiau gyda chyfran uwch o gysylltiadau 5G fel arfer yn darparu gwell perfformiad yn gyffredinol. Rydym yn edrych ar gyfrannau technoleg ymdrechion i gysylltu i ddefnyddio data symudol pan fydd dyfais defnyddiwr eisoes wedi cysylltu â rhwydwaith symudol.

Mewn newid i adroddiadau Materion Symudol blaenorol, mae ein dadansoddiad yn cynnwys data perfformiad ar gyfer rhai gweithredwyr rhwydweithiau rhithiwr symudol penodol wrth asesu perfformiad rhwydweithiau symudol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir wrth gyfrifo sgoriau perfformiad da yn ein gwiriwr gwe [Mapio Eich Ffôn Symudol](#).

Un gwahaniaeth amlwg rhwng rhwydweithiau oedd i ba raddau roedd cyflwyno 5G yn trosi i argaeledd technolegau symudol pan oedd defnyddwyr yn ceisio gwneud cysylltiad i ddefnyddio data. Er bod pob rhwydwaith wedi cynyddu ei gyfran o ymdrechion i gysylltu i ddefnyddio data 5G yn 2025/26, 4G oedd y dechnoleg a oedd yn cael ei defnyddio fwyaf o hyd, gan gyfrif am 66% o'r ymdrechion i gysylltu ar EE, 75% ar O2, 81% ar Three ac 82% ar Vodafone.

EE oedd â'r gyfran fwyaf o ymdrechion i gysylltu a oedd yn 5G SA yn 2025/26, sef 7% (i fyny o 1% yn y flwyddyn flaenorol). Gwelodd EE hefyd y gyfran fwyaf o ymdrechion i gysylltu â 5G NSA, sef 27%.

**Ffigur 10: Cyfrannau ymdrechion i gysylltu â rhwydwaith symudol yn ôl technoleg a rhwydwaith: 2025/26**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae data a labelwyd yn 2024/25 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, ac mae'r data a labelwyd yn 2025/26 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026; ni wnaeth Three gynnig gwasanaethau 5G SA yn ystod y cyfnod mesur; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol.*

## Amser ymateb (oedi)


Amser ymateb y rhwydwaith, sydd hefyd yn cael ei alw'n oedi, yw'r amser mae'n ei gymryd i'r rhwydwaith ymateb i gais am ddata. Gall llai o oedi wella profiad y defnyddiwr yn sylweddol, yn

enwedig ar gyfer defnydd amser real fel galwadau fideo, gwasanaethau VoIP, a gemau ar-lein. Er bod gweithgareddau fel pori'r we yn llai sensitif i oedi ar y cyfan a'u bod yn dal yn gallu perfformio'n dda gydag amseroedd ymateb arafach, mae'r rhan fwyaf o apiau symudol angen oedi un ffordd o dan 50 milieiliad i roi profiad da i ddefnyddwyr.<sup>27</sup> Mae gwasanaethau mwy heriol, gan gynnwys galwadau fideo, fel arfer yn elwa o oedi o dan 50 milieiliad i sicrhau perfformiad llyfn ac ymatebol.

Nid oedd amseroedd ymateb yn newid llawer o un flwyddyn i'r llall ar draws yr holl rwydweithiau a thechnolegau. EE oedd â'r amser ymateb cyflymaf ar 5G SA yn 2025/26 (8.9 milieiliad), tra bod Three wedi cyflawni perfformiad tebyg ar 5G NSA (9.8 milieiliad), yr amser cyflymaf a gofnodwyd ar y dechnoleg, sy'n awgrymu nad oedd defnyddwyr ei rwydwaith dan anfantais oherwydd nad oedd yn cynnig 5G SA. Roedd rhai gwasanaethau 5G NSA yn perfformio'n well na rhwydweithiau 5G SA, gan awgrymu nad yw mynediad at 5G SA o reidrwydd yn trosi'n gysylltiad sy'n amlwg yn fwy ymatebol. Amser ymateb 4G EE (11.6 milieiliad) oedd yr isaf ymysg y rhwydweithiau.

Bach iawn (6 milieiliad) oedd y gwahaniaeth rhwng yr amseroedd ymateb uchaf ac isaf a gofnodwyd ar draws pob technoleg ac, o ystyried bod hyd yn oed yr amser ymateb uchaf a gofnodwyd yn sylweddol is na'r trothwy sgôr perfformiad o 50 milieiliad ar gyfer profiad da i ddefnyddwyr, mae'n annhebygol y byddai'r gwahaniaethau a welwyd yn amlwg i ddefnyddwyr, hyd yn oed ar gyfer defnydd amser real fel chwarae gemau a gwneud galwadau fideo.

**Ffigur 11: Amser ymateb cyfartalog (canolrifol) yn ôl technoleg a rhwydwaith symudol: 2025/26 (milieiliadau, mae is yn well)**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; nid oedd Three wedi cynnig gwasanaethau 5G SA yn ystod y cyfnod mesur; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol; mae'r bariau/llinellau yn y siart ar y chwith yn dangos bod tebygolrwydd o 95% bod y perfformiad cyfartalog gwirioneddol ar gyfer pob defnyddiwr (h.y. nid dim ond aelodau'r panel defnyddwyr yn ein sampl) yn dod o fewn yr ystodau a ddangosir.*

## Perfformiad lawrlwytho<sup>28</sup>

Roedd perfformiad lawrlwytho dros 5G NSA wedi gwella ar gyfer y rhan fwyaf o rwydweithiau yn 2025/26, gyda lawrlwythiadau ar gyfer Three a Vodafone yn gyflymach yn gyffredinol nag ar EE ac O2. Three berfformiodd orau yn gyffredinol, gan gofnodi'r gyfran uchaf o lawrlwythiadau ar 20 Mbit

<sup>27</sup> Cyfrifir oedi fel hanner yr Amser Hap-Grwn (RTT/2), sy'n amcangyfrif yr oedi unffordd i becyn data deithio o ddyfais symudol i weinydd. Mae'r cyfrifiad yn defnyddio'r mesur isaf o RTT ar draws 100 pecyn UDP.

<sup>28</sup> Mae dosbarthiad cyflymder lawrlwytho yn seiliedig ar ganlyniadau profion sy'n seiliedig ar amser, tra bo'r amseroedd lwytho ffeiliau bach i lawr yn seiliedig ar brofion maint ffeil sefydlog. Gweler tudalen 13 am ragor o fanylion.


yr eiliad neu uwch (89%) a 100 Mbit yr eiliad neu uwch (58%), ynghyd â bod â'r gyfran isaf o dan 5 Mbit yr eiliad (2%). Roedd lawrlwytho EE 5G NSA yn arafach (86% ar 20 Mbit yr eiliad neu uwch, 41% ar 100 Mbit yr eiliad neu fwy). Roedd O2 wedi gwella o un flwyddyn i'r llall, gan gynyddu ei gyfran o brofion ar 100 Mbit yr eiliad neu uwch (6 pwynt canran i 38%), ond roedd ganddo'r proffil cyflymder lawrlwytho 5G NSA gwannaf yn gyffredinol o hyd.

EE oedd yn dal i ddarparu'r lawrlwythiadau 4G cyflymaf (60% ar 20 Mbit yr eiliad neu uwch, 14% ar 100 Mbit yr eiliad neu uwch), a Three oedd yn dangos y gwelliant mwyaf (ei gyfran ar 20 Mbit yr eiliad neu fwy i fyny 7pwynt canran i 56%). Roedd Vodafone hefyd wedi gwella ac O2 oedd y gwannaf o hyd (40% o'r profion yn 20 Mbit yr eiliad neu uwch a 22% yn is na 5 Mbit yr eiliad).

Roedd amrywiadau trwybwn lawrlwytho rhwng rhwydweithiau yn fwy ar 5G SA a 4G nag ar 5G NSA. Ar gyfer llwytho 20 Mbit yr eiliad neu fwy i lawr, y bwlch rhwng y rhwydweithiau gorau a gwaethaf oedd 10 pwynt canran ar 5G NSA, o'i gymharu â 23 pwynt canran ar 5G SA a 20 pwynt canran ar 4G. Mae hyn yn awgrymu y bydd y rhwydwaith sy'n cael ei ddefnyddio gan ddarparwr symudol cwsmer yn cael llai o effaith ar brofiad y defnyddiwr wrth ddefnyddio 5G NSA.

Fel y gwelir yng nghanlyniadau'r DU gyfan, arafodd perfformiad lawrlwytho 5G SA ar draws pob rhwydwaith o un flwyddyn i'r llall, sy'n cael ei adlewyrchu'n bennaf mewn gostyngiad yng nghyfran y cysylltiadau cyflym iawn a allai fod o ganlyniad i ymryson am le ar rwydwaith wrth i fwy o ddefnyddwyr ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Parhaodd Vodafone i arwain ar lwytho 5G SA i lawr, gyda dim ond 1% o gysylltiadau o dan 5 Mbit yr eiliad a 95% ar 20 Mbit yr eiliad neu uwch. Gostyngodd ei gyfran o 100 Mbit yr eiliad neu uwch 5 pwynt canran o un flwyddyn i'r llall i 70%, ond arhosodd tua 25 pwynt canran ar y blaen i unrhyw rwydwaith arall. Nid oedd Three wedi cynnig gwasanaethau 5G SA yn ystod y cyfnod mesur.

**Ffigur 12: Dosbarthiad cyflymderau lawrlwytho, yn ôl technoleg a rhwydwaith symudol: 2024/25 a 2025/26**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*


*Nodiadau: Mae data a labelwyd yn 2024/25 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, ac mae'r data a labelwyd yn 2025/26 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026; ni wnaeth Three gynnig gwasanaethau 5G SA yn ystod y cyfnod mesur; gall newidiadau dros amser gael eu hachosi gan ffactorau ar wahân i berfformiad rhwydwaith symudol; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol.*

Roedd yr amseroedd llwytho ffeiliau i lawr yn arafach dros 4G nag ar 5G NSA ar draws pob gweithredwr, gyda'r gwahaniaeth yn fwyaf amlwg ar gyfer lawrlwythiadau mwy o faint. Ar gyfer llwytho ffeiliau 5 MB i lawr, cymerodd 4G tua thair gwaith yn hirach na 5G NSA ar rwydweithiau O2, Three a Vodafone, a thua 50% yn hirach ar rwydwaith EE (a oedd â'r amser cyfartalog uchaf i lawrlwytho ffeiliau 5G NSA 5 MB a'r amser cyfartalog isaf i lwytho ffeiliau 5 MB i lawr dros 4G). Gwelwyd patrymau tebyg ar gyfer llwytho 2 MB i lawr.

Yn gyffredinol, roedd y gwahaniaethau rhwng rhwydweithiau yn fach ac yn annhebygol o effeithio ar brofiad y defnyddiwr. Ar gyfer ffeiliau 2 MB, roedd y gwahaniaeth yn amseroedd lawrlwytho ffeiliau'r rhwydweithiau cyflymaf ac arafaf yn amrywio o 0.2 eiliad dros y ddwy dechnoleg 5G i 0.3 eiliad dros 4G. Roedd y gwahaniaethau'n fwy ar gyfer llwytho ffeiliau 5 MB i lawr (ac felly'n fwy tebygol o fod yn amlwg i ddefnyddwyr), yn amrywio o 0.3 eiliad dros 5G NSA i 0.8 eiliad ar 4G.

Mae ein sgôr perfformiad yn gofyn am gyflymder trwybwn lawrlwytho o 5 Mbit yr eiliad o leiaf ar gyfer cysylltiad er mwyn darparu perfformiad symudol da. Ar 5 Mbit yr eiliad, byddai cysylltiad yn llwytho ffeil 2 MB i lawr mewn tua 3.2 eiliad a ffeil 5 MB mewn tua 8.0 eiliad, sy'n hirach na'r holl gyfartaleddau a ddangosir isod.

**Ffigur 13: Amser i lawrlwytho ffeiliau 2 MB a 5 MB, yn ôl technoleg a rhwydwaith symudol: 2025 (milieiliadau, mae is yn well)**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; nid oedd Three wedi cynnig gwasanaethau 5G SA yn ystod y cyfnod mesur; mae'r data ond yn ymwneud ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol; mae'r bariau/llinellau yn y siart yn dangos bod tebygolrwydd o 95% bod y perfformiad cyfartalog gwirioneddol ar gyfer pob defnyddiwr (h.y. nid dim ond aelodau'r panel defnyddwyr yn ein sampl) yn dod o fewn yr ystodau a ddangosir.*

## Perfformiad uwchlwytho<sup>29</sup>

Roedd perfformiad uwchlwytho wedi gwella ar draws y rhan fwyaf o dechnolegau a gweithredwyr yn 2025/26, gyda llai o gysylltiadau'n disgyn i'r band cyflymder isaf a mwy yn cyflawni cyflymderau o 20 Mbit yr eiliad neu uwch.


<sup>29</sup> Mae dosbarthiad cyflymder uwchlwytho yn seiliedig ar ganlyniadau profion sy'n seiliedig ar amser, tra bo'r amseroedd lwytho ffeiliau 1 MB i fyny yn seiliedig ar brofion maint ffeil sefydlog. Gweler tudalen 13 am ragor o fanylion.

Gwelwyd y gwelliannau mwyaf ar 5G SA, lle'r oedd pob rhwydwaith yn dangos newid sylweddol tuag at uwchlwytho'n gyflymach. Roedd Vodafone yn arweinydd clir ym mherfformiad cyflymder uwchlwytho 5G SA ac yn dangos y gwelliant mwyaf, gan gynyddu'r gyfran o'i lwythiadau i fyny 5G SA o 20 Mbit yr eiliad neu uwch gan 17pwynt canran i 48%, 20 pwynt canran yn uwch nag unrhyw weithredwr arall. Vodafone hefyd oedd â'r gyfran leiaf o lwythiadau i fyny 5G SA o dan 1.5 Mbit yr eiliad (y trothwy sgôr perfformiad ar gyfer profiad symudol da), sef 6%.

Roedd y gwelliannau ar gyfer 5G NSA yn llai ac roedd y perfformiad wedi'i grwpio'n agosach. Roedd cyfran Vodafone, Three ac O2's o lwythiadau 5G NSA i fyny o 20 Mbit yr eiliad neu uwch i gyd wedi cynyddu 3pc i 5pwynt canran ac roedden nhw hefyd wedi lleihau'r cyfrannau o'u cysylltiadau a oedd o dan 1.5 Mbit yr eiliad. Nid oedd perfformiad uwchlwytho 5G NSA EE wedi newid rhyw lawer o un flwyddyn i'r llall ac roedd â'r gyfran isaf o lwytho iadau fyny o dan 1.5 Mbit yr eiliad (11%) yn 2025/26. Mae'r gostyngiad mewn uwchlwytho 5G NSA o dan 1.5 Mbit yr eiliad ar draws pob gweithredwr yn dangos nad oedd gwelliannau wedi'u cyfyngu i gyfran y cysylltiadau uwchlwytho cyflymach.

Roedd perfformiad uwchlwytho 4G wedi gwella ychydig o un flwyddyn i'r llall ar draws y rhwydweithiau, ond roedd yn dal yn sylweddol arafach na 5G. Cyflymderau uwchlwytho 4G oedd yr arafaf ar O2, a oedd â'r gyfran uchaf o dan 1.5 Mbit yr eiliad (30%) a'r gyfran isaf dros 20 Mbit yr eiliad neu uwch (8%). Er mai Vodafone ac EE oedd â'r cyfrannau cysylltiad 4G isaf o dan 1.5 Mbit yr eiliad, EE a Three oedd â'r cyfrannau uchaf ar 20 Mbit yr eiliad neu uwch (16% a 15% yn y drefn honno).

**Ffigur 14: Dosbarthiad cyflymderau uwchlwytho, yn ôl technoleg a rhwydwaith symudol: 2024/25 a 2025/26**




*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae data a labelwyd yn 2024/25 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, ac mae'r data a labelwyd yn 2025/26 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026; ni wnaeth Three gynnig gwasanaethau 5G SA yn ystod y cyfnod mesur; gall newidiadau dros amser gael eu hachosi gan ffactorau ar wahân i berfformiad rhwydwaith symudol; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol.*

Roedd llwytho ffeil 1 MB i fyny yn cymryd tua 0.4 eiliad ar 5G SA a 5G NSA ar draws pob rhwydwaith, gan dynnu sylw at wahaniaethau cyfyngedig mewn amseroedd uwchlwytho yn y byd go iawn rhwng y ddwy dechnoleg. Roedd uwchlwytho ar 4G yn arafach ar y cyfan, gan gymryd 0.7 eiliad ar bob rhwydwaith ac eithrio O2, a oedd yn 1.2 eiliad ar gyfartaledd.

Ar draws yr holl rwydweithiau a thechnolegau, roedd yr amser cyfartalog i lwytho ffeil 1 MB i fyny yn llai na'r oddeutu 1.6 eiliad y byddai'n ei gymryd ar gysylltiad 1.5 Mbit yr eiliad (y trwybwn isaf sy'n ofynnol er mwyn i gysylltiad fodloni ein trothwy uwchlwytho perfformiad da).

**Ffigur 15: Amser i uwchlwytho ffeil 1MB i fyny, yn ôl technoleg a rhwydwaith symudol: 2025/26 (eiliadau, mae is yn well)**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; nid oedd Three wedi cynnig gwasanaethau 5G SA yn ystod y cyfnod mesur; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol; mae'r bariau/llinellau yn y siart yn dangos bod tebygolrwydd o 95% bod y perfformiad cyfartalog gwirioneddol ar gyfer pob defnyddiwr (h.y. nid dim ond aelodau'r panel defnyddwyr yn ein sampl) yn dod o fewn yr ystodau a ddangosir.*

## Cyfraddau llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data a ffrydio fideo


Roedd cyfraddau llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data yn uwch na 97% ar 5G SA a 5G NSA a 95% ar 4G ar gyfer pob darparwr rhwydwaith, gyda phrin dim amrywiad rhwng y cyfraddau ar gyfer rhwydweithiau unigol.

Roedd cyfraddau llwyddiant ffrydio fideo dros 5G yr un mor gyson, dros 94% ar 5G SA a 92% ar 5G NSA. Fodd bynnag, er bod y cyfartaledd dros 4G ychydig yn is (yn amrywio o 87% i 91%), roedd ganddo gyfran sylweddol uwch o ffrydiau na allai ond rhedeg ar eglurder is na HD nag yr oedd gyda 5G. Mae'r canlyniadau'n dangos bod llawer o ddefnyddwyr yn annhebygol o sylwi ar wahaniaethau ystyrlon rhwng darparwyr ar sail cysylltiadau wedi methu na pherfformiad ffrydio fideo yn unig.


Fel y dangosir yn yr adran uchod ar gyfrannau ceisio cysylltu â'r rhwydwaith, mae mynediad defnyddwyr at 5G yn amrywio rhwng y rhwydweithiau, gan effeithio ar eu tebygolrwydd o brofi'r perfformiad uwch sy'n gysylltiedig â 5G.

**Ffigur 16: Cyfradd llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data, yn ôl technoleg a rhwydwaith; a chyfran y ffrydiau fideo 20 eiliad a gwblhawyd yn llwyddiannus, yn ôl eglurder, technoleg a rhwydwaith: 2025/26**

**Cyfradd llwyddiant ceisiadau cysylltu data**



**Cyfradd llwyddiant ffrydio fideo**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; nid oedd Three wedi cynnig gwasanaethau 5G SA yn ystod y cyfnod mesur; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol; mae'r categori cyfradd llwyddiant ffrydio fideo 'Is na HD' yn cynnwys ffrydiau y cwmpodd eu heglurder dan HD ar unrhyw bwynt yn ystod y prawf; ni ellir cymharu ffigurau cyfradd llwyddiant ffrydio fideo â'r rhai mewn adroddiadau Materion Symudol cynharach, gan eu bod yn cyfrif profion nad oeddent wedi'u cwblhau fel methiannau, pan gafodd y rhain eu heithrio o'r dadansoddiad yn flaenorol. Roedd y rhain yn cyfrif am 6% o'r holl brofion ac efallai eu bod wedi methu oherwydd ffactorau nad oeddent yn gysylltiedig â'r rhwydwaith.*


# Perfformiad symudol yn ôl gwledydd

Yn yr adran hon rydym yn edrych ar sut roedd perfformiad rhwydweithiau symudol yn amrywio ar draws gwledydd y DU. Rydym yn canfod mai defnyddwyr yn Lloegr oedd fwyaf tebygol o brofi perfformiad symudol da, tra y gallai y rhai yng Nghymru yn sylwi ar lawrlwytho a uwchlwytho 4G arafach, er enghraifft wrth rannu ffeiliau, lluniau neu fideos. Roedd y gwahaniaethau mewn cyfraddau cwblhau ffrydio fideo a llwyddiant cysylltiadau cyfartalog rhwng y gwledydd yn ddigon bychan fel nad ydynt yn debygol o effeithio ar brofiad cyffredinol y defnyddiwr.

## Cyfran o ymdrechion i gysylltu â rhwydwaith symudol

Roedd y defnydd o 5G SA a 5G NSA wedi cynyddu ar draws y pedair gwlad yn 2025/26, ond 4G oedd y brif dechnoleg o hyd ar gyfer defnydd symudol bob dydd. Roedd 5G SA yn cyfrif am ddim ond tua 3% i 4% o'r ymdrechion i gysylltu i ddefnyddio data ar draws y gwledydd, ac roedd cyfran 5G yr NSA yn amrywio o 14% yng Nghymru i 21% yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Felly, roedd profiadau defnyddwyr yn cael eu siapio i raddau helaeth gan ddibyniaeth pob gwlad ar 4G: Gogledd Iwerddon a Lloegr oedd â'r cyfrannau 4G isaf a Chymru oedd â'r gyfran uchaf, gan wneud perfformiad arafach yn fwy tebygol yng Nghymru.

**Ffigur 17: Cyfrannau ymdrechion i gysylltu â rhwydwaith symudol yn ôl gwlad a thechnoleg: 2024/25 a 2025/26**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae data a labelwyd yn 2024/25 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, ac mae'r data a labelwyd yn 2025/26 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026; gall newidiadau dros amser gael eu hachosi gan ffactorau ar wahân i berfformiad rhwydwaith symudol; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol.*


## Perfformiad lawrlwytho<sup>30</sup>

Dangosodd Cymru, Lloegr a'r Alban ddosbarthiad trwybwn 5G NSA tebyg, gyda Lloegr â'r gyfran uchaf o lawrlwythiadau 100 Mbit yr eiliad neu uwch (47%) a Gogledd Iwerddon oedd â'r gyfran isaf, sef 40%.

Roedd 4G yn arafach na 5G SA ac NSA ym mhob gwlad. Ar 4G, roedd gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gyfrannau trwybwn tebyg o dan 5 Mbit yr eiliad (trothwy'r sgôr perfformiad ar gyfer profiad symudol da) ar 17-18%. Cymru oedd â'r proffil gwannaf o ran lawrlwytho 4G gyda chwarter (25%) y lawrlwythiadau o dan y trothwy hwn. Mae'r cyflymderau arafach hyn yn arbennig o arwyddocaol i ddefnyddwyr yng Nghymru oherwydd y gyfran uwch o gysylltiadau 4G.

Roedd tystiolaeth bod perfformiad lawrlwytho 5G SA yn arafu ym mhedair gwlad y DU o un flwyddyn i'r llall, wrth i gyfran ychydig yn uwch o gysylltiadau ostwng o dan 5 Mbit yr eiliad. Roedd y gostyngiad yn fwyaf amlwg ar gyflymderau uwch ar draws yr holl wledydd, gyda chyfran lawrlwytho dros 100 Mbit yr eiliad yn gostwng 14 pwynt canran yn Lloegr a 12pc yng Nghymru a'r Alban (ni fu unrhyw newid yng Ngogledd Iwerddon).

**Ffigur 18: Dosbarthiad cyflymderau lawrlwytho, yn ôl gwlad a thechnoleg: 2024/25 a 2025/26**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*


*Nodiadau: Mae data a labelwyd yn 2024/25 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, ac mae'r data a labelwyd yn 2025/26 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026; gall newidiadau dros amser gael eu hachosi gan ffactorau ar wahân i berfformiad rhwydwaith symudol; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol.*

<sup>30</sup> Mae dosbarthiad trwybwn lawrlwytho yn seiliedig ar ganlyniadau profion sy'n seiliedig ar amser, sy'n wahanol i brofion maint ffeil sefydlog a ddefnyddir i fesur amseroedd llwytho ffeiliau bach i lawr. Gweler tudalen 13 am ragor o fanylion.

## Perfformiad uwchlwytho<sup>31</sup>

Nid oedd llawer o amrywiad mewn amseroedd llwytho ffeiliau i fyny gan ddefnyddio'r un dechnoleg symudol ar draws gwledydd y DU yn 2025/26. Ar gyfartaledd, cymerodd 0.4 eiliad i lwytho ffeil 1 MB i fyny gan ddefnyddio 5G SA a 5G NSA ym mhob gwlad. Roedd hyn tua hanner yr amser a gymerodd i lwytho ffeil 1 MB i fyny gan ddefnyddio 4G, lle roedd cyfartaledd o 0.8 eiliad ym mhob un o wledydd y DU ac eithrio Cymru, lle roedd yn cymryd ychydig mwy o amser (0.9 eiliad).

**Ffigur 19: Amser i lwytho ffeil 1MB i fyny, yn ôl gwlad a thechnoleg: 2025/26 (eiliadau, mae is yn well)**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026 ac yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*


## Amser ymateb (oedi)<sup>32</sup>

Roedd gan Gymru a Lloegr amseroedd ymateb tebyg ar gyfer pob technoleg, ac roedd gan Ogledd Iwerddon a'r Alban amseroedd ymateb hirach yn gyson o tua 7 milieiliad a 3 milieiliad yn y drefn honno. Roedd yr holl amseroedd ymateb cyfartalog yn sylweddol is na throthwy'r sgôr perfformiad da o 50 milieiliad, sy'n golygu ei bod yn annhebygol y byddent yn cael effaith niweidiol ar brofiad y defnyddiwr.

<sup>31</sup> Mae amseroedd llwytho ffeiliau bach i fyny yn seiliedig ar brofion maint ffeil sefydlog, sy'n wahanol i'r profion seiliedig ar amser a ddefnyddir wrth edrych ar ddosbarthiad cyflymder uwchlwytho. Gweler tudalen 13 am ragor o fanylion.

<sup>32</sup> Cyfrifir oedi fel hanner yr Amser Hap-Grwn (RTT/2), sy'n amcangyfrif yr oedi unffordd i becyn data deithio o ddyfais symudol i weinydd. Mae'r cyfrifiad yn defnyddio'r mesur isaf o RTT ar draws 100 pecyn UDP.

**Ffigur 20: Amser ymateb, yn ôl gwlad a thechnoleg: 2025/26 (milieiliadau, mae is yn well)**




*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

## Cyfradd llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data

Roedd cyfraddau llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data yn debyg ar draws gwledydd y DU, gan awgrymu nad oedd y rhain yn sbardun allweddol i wahaniaethau mewn sgoriau perfformiad a nodwyd yn flaenorol rhwng Cymru a'r gwledydd eraill. Ym mhob un o wledydd y DU, roedd cyfraddau llwyddiant cysylltu dros 95% ar 4G ac yn uwch na 97% ar 5G NSA a 5G SA.

**Ffigur 21: Cyfradd llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data, yn ôl gwlad a thechnoleg: 2025/26**




*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; mae'r data'n ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

## Cyfraddau llwyddiant ffrydio fideos

Roedd defnyddwyr ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban fel arfer yn gallu ffrydio fideo'n llwyddiannus heb ymyrraeth, heb fawr o amrywiaeth rhwng gwledydd o fewn technolegau (0.6pwynt canran ar 5G SA, 0.5pc ar 5G NSA a 2.8pc ar 4G). Fodd bynnag, roedd mwy o wahaniaethau o ran i ba raddau y gallai defnyddwyr ar draws y gwledydd gael gafael ar dechnoleg 5G a'r tebygolrwydd o gael cysylltedd cyflymach.

**Ffigur 22: Cyfran y ffrydiau fideo 20 eiliad a gwblhawyd yn llwyddiannus, yn ôl eglurder, technoleg a gwlad: 2025/26**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol; mae'r categori cyfradd llwyddiant ffrydio fideo 'Is na HD' yn cynnwys ffrydiau y cwmpodd eu heglurder dan HD ar unrhyw bwynt yn ystod y prawf; ni ellir cymharu ffigurau cyfradd llwyddiant ffrydio fideo â'r rhai mewn adroddiadau Materion Symudol cynharach, gan eu bod yn cyfrif profion nad oeddent wedi'u cwblhau fel methiannau, pan gafodd y rhain eu heithrio o'r dadansoddiad yn flaenorol. Roedd y rhain yn cyfrif am 6% o'r holl brofion ac efallai eu bod wedi methu oherwydd ffactorau nad oeddent yn gysylltiedig â'r rhwydwaith.*


# Perfformiad symudol yn ôl gwledigrwydd

Yn gyffredinol, mae defnyddwyr ffonau symudol mewn ardaloedd trefol a gwledig yn debygol o brofi gwasanaethau sydd yr un mor ddibynadwy ac ymatebol. Roedd cyfraddau llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data, llwyddiant ffrydio fideo ac oedi yn cymharu'n fras ar draws lleoliadau trefol a gwledig. Roedd y gwahaniaethau mwyaf amlwg ym mhrofiad defnyddwyr yn fwy tebygol o ddod o'r gymysgedd o dechnoleg, yn enwedig y ffaith bod defnyddwyr gwledig yn dibynnu mwy ar 4G, ac o'r bwlch trefol-gwledig ehangach o ran cyflymder lawrlwytho a uwchlwytho 4G.<sup>33</sup>

## Cyfran o ymdrechion i gysylltu â rhwydwaith symudol

Roedd cyfran 5G SA a 5G NSA o ymdrechion i gysylltu â'r rhwydwaith wedi cynyddu mewn ardaloedd gwledig a threfol yn 2025/26. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o'r ymdrechion i gysylltu yn ymwneud â rhwydweithiau 4G, ac roedd dyfeisiau mewn ardaloedd gwledig yn parhau i fod yn llai tebygol na'r rhai mewn ardaloedd trefol o ddefnyddio gwasanaethau 5G. Yn 2025/26, gwnaed 84% o ymdrechion i gysylltu i ddefnyddio data mewn ardaloedd gwledig i 4G a 15% i 5G, o'i gymharu â 74% i 4G a 26% i 5G mewn ardaloedd trefol.

**Ffigur 23: Cyfran yr ymdrechion i gysylltu â rhwydwaith symudol, yn ôl technoleg a gwledigrwydd, 2024/25 a 2025/26**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; mae'r data'n ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

## Perfformiad lawrlwytho<sup>34</sup>

Roedd y bwlch trefol/gwledig mewn perfformiad lawrlwytho yn fwy ar rwydweithiau 4G nag ar 5G yn 2025/26. Ar 4G, roedd 84% o ddefnyddwyr trefol wedi cael cyflymder lawrlwytho o 5 Mbit yr eiliad o leiaf, o'i gymharu â 75% o ddefnyddwyr gwledig. I'r gwrthwyneb, roedd gwahaniaethau trefol/gwledig mewn dosbarthiad cyflymder lawrlwytho yn llai ar rwydweithiau 5G, gydag o leiaf 94% o ddefnyddwyr mewn ardaloedd trefol a gwledig yn cael cyflymder lawrlwytho uwch na 5 Mbit yr eiliad. Roedd newidiadau cyfyngedig o un flwyddyn i'r llall yn nosbarthiad trwybwn lawrlwytho


<sup>33</sup> Daw'r dosbarthiadau trefol/gwledig a ddefnyddir yn y dadansoddiad o set ddata 'Locale' Bluewave Geographics.

<sup>34</sup> Mae dosbarthiad cyflymder lawrlwytho yn seiliedig ar ganlyniadau profion sy'n seiliedig ar amser, tra bo'r amseroedd lwytho ffeiliau bach i lawr yn seiliedig ar brofion maint ffeil sefydlog. Gweler tudalen 13 am ragor o fanylion.

trefol a gwledig cysylltiadau 5G NSA a 4G yn 2025/26, ac roedd y gostyngiad ym mherfformiad 5G SA a nodwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn yn amlwg mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Roedd yr amseroedd llwytho ffeiliau bach i lawr hefyd yn dangos gwahaniaethau bychain yn unig rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Ar 4G, roedd llwytho ffeil 5 MB i lawr yn cymryd 1.4 eiliad mewn ardaloedd trefol, o'i gymharu ag 1.9 eiliad mewn ardaloedd gwledig. Roedd yr amseroedd lawrlwytho yn gyflymach ar 5G NSA, lle'r oedd llwytho 2 MB i lawr yn cymryd 0.3 eiliad mewn ardaloedd trefol a 0.4 eiliad mewn ardaloedd gwledig. Ar gyfer llwytho 5 MB i lawr, y ffigurau 5G NSA cyfatebol oedd 0.6 eiliad a 0.8 eiliad yn y drefn honno.

**Ffigur 24: Dosbarthiad cyflymderau lawrlwytho, yn ôl technoleg a gwledigrwydd: 2024/25 a 2025/26**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*


*Nodiadau: Mae data a labelwyd yn 2024/25 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, ac mae'r data a labelwyd yn 2025/26 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026; gall newidiadau dros amser gael eu hachosi gan ffactorau ar wahân i berfformiad rhwydwaith symudol; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol.*

## Perfformiad uwchlwytho<sup>35</sup>

Roedd ardaloedd trefol hefyd wedi perfformio ychydig yn well nag ardaloedd gwledig wrth uwchlwytho, gyda gwahaniaethau trefol/gwledig gweddol gyson yng nghyfran y defnyddwyr a oedd yn cyflymder uwchlwytho o 20 Mbit yr eiliad o leiaf ar draws technolegau. Roedd defnyddwyr trefol yn fwy tebygol na defnyddwyr gwledig o gael cyflymder uwchlwytho o 20 Mbit yr eiliad o leiaf ar 4G (14% trefol o'i gymharu ag 8% mewn ardaloedd gwledig), 5G SA (32% trefol o'i gymharu â 25% gwledig) a 5G NSA (31% o'i gymharu â 26%). Fodd bynnag, bach iawn oedd y gwahaniaethau mewn amseroedd uwchlwytho ar gyfer ffeil 1 MB, gan gymryd llai na 0.2 eiliad yn hirach mewn ardaloedd gwledig dros 4G. Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn debygol o gael effaith amlwg ar brofiad defnyddwyr.

<sup>35</sup> Mae dosbarthiad cyflymder uwchlwytho yn seiliedig ar ganlyniadau profion sy'n seiliedig ar amser, tra bo'r amseroedd lwytho ffeiliau bach i fyny yn seiliedig ar brofion maint ffeil sefydlog. Gweler tudalen 13 am ragor o fanylion.

**Ffigur 25: Dosbarthiad cyflymderau uwchlwytho, yn ôl technoleg a gwledigrwydd: 2025/26**




*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; mae'r data'n ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

## Amser ymateb (oedi)<sup>36</sup>

Roedd y gwahaniaethau a welwyd mewn amser ymateb (oedi) rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn fach ar draws pob technoleg yn 2025/26, gyda chyfartaledd o lai na 2 milieiliad ym mhob achos. Felly, roedd yn annhebygol y byddai amseroedd ymateb yn arwain at brofiadau gwahanol i ddefnyddwyr trefol a gwledig, yn enwedig gan fod hyd yn oed y lefelau oedi cyfartalog uchaf a welsom yn is o lawer na throthwy'r sgôr perfformiad o 50 milieiliad ar gyfer profiad da. Hefyd, dim ond mân wahaniaethau oedd mewn amseroedd ymateb wrth gymharu 2024/25 a 2025/26.

**Ffigur 26: Amser ymateb, yn ôl technoleg a gwledigrwydd: 2024/25 a 2025/26 (milieiliad, mae is yn well)**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*


*Nodiadau: Mae data a labelwyd yn 2024/25 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2024 a Gorffennaf 2025, ac mae'r data a labelwyd yn 2025/26 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026; gall newidiadau dros amser gael eu hachosi gan ffactorau ar wahân i berfformiad rhwydwaith symudol; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol.*

<sup>36</sup> Cyfrifir oedi fel hanner yr Amser Hap-Grwn (RTT/2), sy'n amcangyfrif yr oedi unffordd i becyn data deithio o ddyfais symudol i weinydd. Mae'r cyfrifiad yn defnyddio'r mesur isaf o RTT ar draws 100 pecyn UDP.

## Cyfradd llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd cyfraddau llwyddiant cysylltiadau i ddefnyddio data mewn ardaloedd trefol ychydig yn uwch na'r rhai mewn ardaloedd gwledig yn 2025/26. Rhwydweithiau 5G NSA yng Ngogledd Iwerddon oedd yr unig eithriad, gydag ardaloedd gwledig yn profi cyfradd llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data ychydig yn uwch na rhai trefol. Rhwydweithiau 4G oedd yn dangos yr amrywiad mwyaf rhwng cyfraddau llwyddiant cysylltiadau data trefol a gwledig, gyda'r mwyaf yng Ngogledd Iwerddon, lle roedd gwahaniaeth o 2.1 pwynt canran rhwng cyfraddau trefol (95.6%) a gwledig (93.5%). I'r gwrthwyneb, Cymru a'r Alban oedd â'r bylchau trefol/gwledig lleiaf dros 4G, sef 0.8 pwynt canran.

**Ffigur 27: Cyfradd llwyddiant cysylltu i ddefnyddio data, yn ôl gwlad, technoleg a gwledigrwydd: 2025/26**




*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; mae'r data'n ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol ar gael.*

## Cyfraddau llwyddiant ffrydio fideos

Cyflawnodd ardaloedd trefol gyfraddau llwyddiant ffrydio fideo ychydig yn uwch nag ardaloedd gwledig yn 2025/26 yn y DU, er bod maint y gwahaniaethau'n golygu nad oeddent yn debygol o fod yn amlwg i ddefnyddwyr. Ar 5G NSA, y gyfradd llwyddiant oedd 94.1% mewn ardaloedd trefol o'i gymharu â 92.3% mewn lleoliadau gwledig; ar gyfer 5G SA roedd yn 96.0% mewn ardaloedd trefol a 95.3% mewn ardaloedd gwledig. Ar 4G, roedd y cyfraddau cwblhau yn 90.0% mewn ardaloedd trefol ac yn 86.4% mewn ardaloedd gwledig. Yr unig achos lle'r oedd cyfradd llwyddiant ffrydio fideo mewn ardaloedd gwledig yn uwch nag mewn ardaloedd trefol oedd yng Nghymru dros 5G SA. Fel y gwelwyd yn flaenorol, roedd cyfran y ffrydiau fideo 4G a oedd yn cael eu cwblhau ar eglurder is na HD yn uwch na thros y naill dechnoleg 5G na'r llall.

**Ffigur 28: Cyfran y ffrydiau fideo 20 eiliad a gwblhawyd yn llwyddiannus, yn ôl eglurder, gwledigrwydd o fewn y wlad, a thechnoleg: 2025/26**



*Ffynhonnell: Ofcom, yn defnyddio data torfol a ddarparwyd gan Opensignal.*

*Nodiadau: Mae'r data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Awst 2025 a mis Gorffennaf 2026; mae'r data yn ymwneud yn unig ag ardaloedd lle'r oedd darpariaeth rhwydwaith symudol; mae'r categori 'Is na HD' yn cynnwys ffrydiau y cywmpodd eu heglurder dan HD ar unrhyw bwynt yn ystod y prawf; ni ellir cymharu ffigurau cyfradd llwyddiant ffrydio fideo â'r rhai mewn adroddiadau Materion Symudol blaenorol, gan eu bod yn cyfrif profion nad oeddent wedi'u cwblhau fel methiannau. Roedd y rhain yn cyfrif am 6% o'r holl brofion ac efallai eu bod wedi methu oherwydd ffactorau nad oeddent yn gysylltiedig â'r rhwydwaith.*